

Y rhai sy'n cynorthwyo

*“tywyllwch oeddech chwi gynt, ond yn awr goleuni ydych yn yr Arglwydd.
Byddwch fyw fel plant goleuni.” (adn. 8)*

Beth am ddarllen Effesiaid 5:1–14 ac yna myfyrio

Wedi i mi ddod yn Gristion a minnau yn fy ardegau, fe siaradodd y gweinidog â mi ryw ddiwrnod gan dynnu fy sylw at 2 Pedr 1:5. Dywedodd, “Dyma’r rhinweddau y mae Duw yn awr am ychwanegu at dy ffydd. Mae i ffydd gynorthwywyr, a dyma’r rhai sydd yn angenrheidiol os yw ffydd am dyfu.” Yna, aeth yn ei flaen, “Ond paid â cheisio’u meddiannu i gyd ar unwaith. Gwna’n siŵr fod dy draed ar ris gyntaf yr ysgol cyn i ti fentro at yr ail.” Roedd hwn yn gyngor da ac yn rhywbeth y bu i mi ei gyfleu i lawer o Gristnogion newydd.

Y peth cyntaf sydd angen ei ychwanegu at ffydd yn ôl 2 Pedr 1:5 yw ‘daioni’. Nawr, mae’r gair Groeg sydd yn cael ei gyfieithu ‘daioni’ (*arete*) yn cael ei ddefnyddio yn anaml iawn yn y Testament Newydd, ac yn ôl ysgolheigion Groegaidd gellir ei ddeall fel ‘rhagoriaeth’. Mae un cyfieithiad yn defnyddio’r ymadrodd ‘rhagoriaeth foesol’ ac mae’n bur debygol mai dyma oedd ym meddwl Pedr wrth ddefnyddio’r gair. Nawr mae hyn yn peri inni ofyn cwestiwn. A yw y rhagoriaeth foesol yma y mae Pedr yn siarad amdani yn rhywbeth sydd yn dod oherwydd ymdrech ein hewyllys, neu a ydyw yn ymdrech y mae Duw yn ei roi ynom ni? Wel, mae’n debyg fod y ddau yn wir.

Y diwrnod ar ôl i mi wahodd yr Arglwydd Iesu i mewn i fy mywyd, es yn ôl i fy hen gynefin ymhlith yr hen demtasiynau a bu i mi ddarganfod fod llawer ohonyn nhw wedi colli eu gafael. Doedd gen i ddim dymuniad tuag atynt. Roeddwn yn ara deg yn deffro i’r gwirionedd fod yna rym newydd yn fy mywyd ac roedd hyn yn arwydd o bresenoldeb Crist ei hunan. Ond roeddwn yn gwybod hefyd yn fy anian na allai’r grym moesol yma weithredu heb i mi gydweithredu. Amhosibl oedd eistedd yn ôl a dweud, “Wel, does gan demtasiwn ddim gafael ynof mwyach.” Roedd yn rhaid i mi eto wneud y penderfyniad i beidio ysmegu, i beidio dweud celwydd, i beidio dweud jôcs budr ac yn y blaen. Roedd rhaid i allu Duw a’ m hewyllys i fynd law yn llaw.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Pedr 2:1–12; 1 Thes. 5:1–11

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod angen cynorthwywyr ar ffydd?
2. Sut mae annog ein gilydd?

Gweddi

O Dad, rwyf mor ddiolchgar am y gwirionedd fod y Cristion, wrth gymryd gafael ynot ti, yn dy adnabod di, a’th fod yn cymryd gafael ynddo ef. Mae hwn yn wirionedd bendigedig. Gwna hyn yn fwyfwy real i mi bob dydd. Amen.